

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Lleoli a Dylunio Adeiladau Fferm Newydd

Canllawiau Cynllunio Atodol

i Gynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir
Penfro

Mabwysiadwyd 13 Mehefin 2012

1.	Rhagarweiniad.....	Error! Bookma	3
2.	Diben y canllawiau hyn.....	Error! Bookma	3
3.	Pwysigrwydd Dylunio.....	Error! Bookma	3
4.	Oes angen Caniatâd Cynllunio arna i?	Error! Bookma	4
5.	Canllawiau Dylunio.....	Error! Bookma	6
6.	Tirlunio.....	Error! Bookma	11
7.	Estyniadau i Adeiladau Presennol.....	Error! Bookma	12
8.	Heolydd Mynediad.....	Error! Bookma	12
9.	Ystyriaethau Eraill.....	Error! Bookma	13
10.	Cyngor Pellach.....	Error! Bookma	14
11.	Cysylltiadau Defnyddiol.....	Error! Bookma	14

1.0 Rhagarweiniad

- 1.1 Yn y canllawiau cynllunio atodol hyn mae cyngor manwl ynghylch lleoli a dylunio adeiladau fferm newydd dan Bolisi 7h y Cynllun Datblygu Lleol.¹ Nid ydynt yn rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol, ond maent wedi cael eu mabwysiadu² ac maent yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu a ellir caniatau cais am ganiatâd cynllunio. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriadau, yn nodi sut yr ymgynghorwyd ar y Canllawiau, ar wefan yr Awdurdod.³

2.0 Diben y canllawiau hyn

- 2.1 Mae amaethyddiaeth yn ddiwydiant allweddol a strategol bwysig o fewn y Parc Cenedlaethol, ac yn chwarae rhan ganolog wrth lunio rheolaeth ei dirwedd. Mae'n helpu i gynnal ei nodweddion arbennig gan gynnwys amrywiaeth ei dirwedd a'i hanes diwylliannol. Mae adeiladau fferm sydd wedi'u gwneud o ddeunyddiau lleol fel rwbwl a llechi yn rhoi cymeriad i'r ardal. Drwy ffermio bydd nodweddion fel patrymau caeau yn cael eu cadw, ynghyd â therfynau traddodiadol fel cloddiau neu waliau carreg, coed, coetiroedd a choedlannau. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cefnogi amcanion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer sicrhau dyfodol cynaliadwy a phroffidiol i ffermio tra'n diogelu'r amgylchedd a chyfrannu at hyfywedd a llewyrch ein cymunedau gwledig. Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn mabwysiadu ymagwedd adeiladol tuag at gynigion datblygu amgylcheddol, ac yn meithrin ysbryd o bartneriaeth gyda'r gymuned ffermio wrth fynd ar drywydd dyfodol cynaliadwy.
- 2.2 Yn sgil newidiadau mewn arferion a systemau ffermio a gofynion deddfwriaeth amgylcheddol, glendid a lles anifeiliaid newydd daeth galw am adeiladau mwy a newydd. Ar y cyfan, mae adeiladau fferm modern yn fwy o faint na'r adeiladau traddodiadol; un rhychwant sydd iddyn nhw fel arfer gyda llai o le yn y to er mwyn cael yr ateb mwyaf economaidd ac ymarferol. Serch hynny, mae'n bosibl na fydd graddfa, deunyddiau a lleoliad adeiladau newydd yn adlewyrchu'r traddodiad dylunio lleol yn briodol, a gallent gael effaith niweidiol ar yr dirwedd. Mae'n allweddol eu bod yn parchu cymeriad a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol a'u bod yn asio gydag agweddau priodol o'r traddodiad dylunio lleol er mwyn creu adeiladau fferm cynaliadwy ac addas.⁴
- 2.3 Ni all y canllawiau hyn gwmpasu pob math o ddatblygiadau ar ffermydd ac nid ydyn nhw'n ymwneud ag anheddau gweithwyr fferm. cynlluniau arallgyfeirio ar ffermydd na rheoli gwastraff fel offeriant treulio anaerobig⁵. Dylid gofyn i'r adran gynllunio am gyngor penodol ynghylch y rhain drwy ddefnyddio'r gwasanaeth cyn-ymgeisio.

¹ <http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?PID=178>

² Trwy benderfyniad Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar 13 Mehefin 2012.

³ <http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?PID=183>

⁴ Gweler canllawiau'r Awdurdod ar Asesu Cymeriad y Dirwedd am wybodaeth bellach
<http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?PID=249>

⁵ Cewch fwy o wybodaeth yng nghyllwbiau'r Awdurdod ar Ynni Adnewyddadwy.

3.0 Pwysigrwydd dylunio

3.1 Cynigir ymagwedd adeiladol tuag at gynigion datblygu amaethyddol.

Y prif ystyriaethau wrth gynllunio adeilad fferm fydd y canlynol: –

- **Sicrhau adeilad sy'n gost-ffeithiol ac yn weithredol effeithlon.**
- **Cael cyn lleied o effaith â phosib ar y dirwedd leol, cefn gwlad ac adeiladau traddodiadol.** Dylid ystyried lleoliad yr adeilad yn y dirwedd leol a'i berthynas â'r adeiladau traddodiadol presennol, ystyried sut i wneud i adeilad mawr edrych yn llai swmpus, ystyried y deunyddiau adeiladu, tirweddau a'r posibiliadau o ran defnyddio adeiladau sydd eisoes yn bodoli. Bydd pob un o'r rhain yn help i leihau effaith weledol adeilad fferm newydd.
- **Dylunio mewn modd cynaliadwy⁶.** Dylai unrhyw ddatblygiad fod wedi'i ddylunio mewn modd cynaliadwy. Mae modd dylunio adeiladau fferm yn dda a gallan nhw fod yn adeiladau cyfoes o'r radd flaenaf sydd wedi cael eu lleoli'n ddeallus, sydd yn ymateb i'r newid yn yr hinsawdd ac sydd yn defnyddio deunyddiau lleol. Os oes rhychwant hir i'r adeilad, gall fod cyfle i osod paneli solar neu ffotofoltäig yn y to⁷.

4.0 Oes angen caniatâd cynllunio arna i?

- 4.1 Mae pob adeilad fferm newydd yn dod o fewn cwrpas y system gynllunio⁸, ac mae angen 'rhag-hysbysiad' neu ganiatâd cynllunio llawn arny'n nhw. Dylid cysylltu â'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn gynted ag y bo modd, drwy ddefnyddio'r drefn ar gyfer gwneud ymholiadau cyn ymgeisio⁹. Os gwnewch hynny cewch gyngor am y caniatâd y gallai fod ei angen arnoch a'r math o ddatblygiad sy'n debygol o gael caniatâd. Does dim angen caniatâd cynllunio ar gyfer rhai mathau o waith, fel addasu'r tu mewn i adeilad. Yn Atodiad 1 cewch gyfarwyddyd cyffredinol a allai'ch helpu i benderfynu a oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer adeiladau amaethyddol.

Rheoliadau eraill

⁶ Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Ddylunio Cynaliadwy, Mehefin 2011.

<http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?pid=183&LangID=2>

⁷ Mae angen caniatâd cynllunio i osod paneli solar neu baneli ffotofoltäig ar adeiladau fferm neu fe allan nhw fod yn rhan o gais cynllunio ar gyfer adeiladau fferm newydd. Gweler y Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Ynni Adnewyddadwy am wybodaeth bellach ar baneli solar. <http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?PID=183>

⁸ Hefyd, dylai ffermwyr gymryd i ystyriaeth holl Safonau Prydeinig y BSI sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth, ynghyd â chodau arferion amaethyddol da ar gyfer diogelu pridd, aer a dŵr ac unrhyw reoliadau perthnasol eraill.

⁹ Gweler <http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?pid=282&LangID=2> am y ffurflenni cyn ymgeisio

- 4.2.1 Gallai rheoliadau eraill hefyd fod yn berthnasol i ddatblygiadau amaethyddol, gan gynnwys Asesu Effeithiau Amgylcheddol lle bwriedir gwneud defnydd amaethyddol dwys o dir heb ei drin ac ardaloedd lled-naturiol. Gallai fod angen Asesu Effeithiau Amgylcheddol ar gyfer rheoli dŵr (tir dros 1 hectar) neu adeiladau ffermio da byw dwys (arwynebedd newydd dros 500 metr sgwâr). Mae Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd yn sefydliad o bwys ar gyfer rheoli amaethyddiaeth.

Polisi Cynllunio Lleol a Chenedlaethol

- 4.3 Ceir y polisi cynllunio cenedlaethol sy'n berthnasol i amaethyddiaeth yn Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 4 (Chwefror 2011), ac mae'n cael ei ategu gan ganllawiau pellach yn Nodyn Cyngor Technegol 6 – Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy, Gorffennaf 2010¹⁰.
- 4.4 Yng Nghynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Medi 2010, mae polisiâu sy'n berthnasol i gynigion i godi adeiladau fferm. Mae'r rheini'n cynnwys Polisi 1 'Dibenion a Dyletswydd y Parc Cenedlaethol'; Polisi 7 'Cefn Gwlad'; Polisi 8 'Nodweddion Arbennig'; Polisi 15 'Gwarchod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro'; Polisi 29 'Dylunio Cynaliadwy'; a Pholisi 30 'Amwynder'.

Hefyd, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi llunio canllawiau cynllunio atodol ar Ddylunio Cynaliadwy ac Ynni Adnewyddadwy¹¹ a gallent hwythau fod yn berthnasol i gynigion i godi adeiladau fferm newydd.

¹⁰ Gweler <http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/?lang=cy>

¹¹ Ewch i <http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?pid=183&LangID=2> i weld dogfennau'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar Ddylunio Cynaliadwy neu Ynni Adnewyddadwy.

Canllawiau Cynllunio Atodol

Lleoli a Dylunio Adeiladau Fferm Newydd ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro Mehefin 2012

5.0 Canllawiau dylunio

- 5.1 Nid bwriad y canllawiau dylunio a nodwyd yn yr adrannau canlynol yw rhagnodi'r drefn. Yn hytrach, eu bwriad yw helpu llunio cynlluniau sy'n cwrdd ag anghenion y ffermwyr ac sy'n gweddu i'r hyn sydd o'u cwrdd. Bydd yr hyn sy'n briodol mewn achos penodol yn dibynnu ar natur y cynnig unigol ac amgylchiadau'r safle. Bydd adeiladau ar gyfer da byw, er enghraifft, yn codi materion gwahanol i'r rheiny ar gyfer storio graen, gwellt neu datws. Gan fod cynnydd mawr wedi digwydd yn nhechnolegau'r diwydiant ffermio ac adeiladu, mae adeiladau fferm newydd yn tueddu i fod yn fwy na'r rhai traddodiadol, ac yn cael eu gwneud o ddeunyddiau adeiladu mwy amrywiol. Mae'n bwysig eu bod yn parhau i ymdoddi i'r dirwedd a chael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth a chynefinoedd, rheoli llygredd a'r amgylchedd hanesyddol a diwylliannol. Mae'n bwysig hefyd eu bod yn gweddu'n dda i'r adeiladau presennol.

Lleoliad

- 5.2 Dylid ffafrio adeiladau newydd sy'n eistedd o fewn yr adeiladau mas presennol, neu'n ymberthyn yn dda iddynt, oherwydd mae'r datblygiad presennol yn medru helpu darparu cyd-destun sy'n llai ymwithiol na datblygiadau newydd sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain. Fodd bynnag, cydnabyddir na fydd lleoli adeiladau yn y fath fodd yn addas bob tro, am resymau gweithredol, oherwydd yr angen i reoli llygredd neu am resymau ymarferol eraill. Hefyd, fe allai fod modd ei wneud yn rhan o'r adeiladau presennol neu estyn adeiladau. Rhai o'r ystyriaethau ymarferol fyddai pa mor gyfleus yw'r fynedfa ar gyfer peiriannau, cerbydau a da byw; lloches, y gofynion o ran haul/cysgod; diogelwch a draenio. Hefyd gallai'r cyngor canlynol helpu i leihau effaith adeilad ar y dirwedd:
- ceisiwch osgoi safleoedd amlwg gan gynnwys safleoedd yn ymyl priffyrdd cyhoeddus a hawliau tramwy cyhoeddus;
 - lle bo modd dylid gosod yr adeilad o dan yr awyrlin;
 - defnyddiwch y planhigion sydd yno eisoes neu plannwch blanhigion newydd i guddio'r adeilad neu i leddfu ei olwg;
 - defnyddiwch yr adeilad fel cyfle i guddio unrhyw adeiladau llai deniadol sydd yno eisoes;
 - peidiwch â gosod yr adeilad yn ymyl eiddo preswyl nad yw'n ymwneud â'r fferm. Dylid ystyried y gallai fod yno aroglau a swm;
 - lle bo modd gosodwch yr adeiladau newydd yn baralel neu ar ongl sgwâr i'r adeiladau presennol;
 - ceisiwch osgoi cuddio neu gael gwared â nodweddion diddorol fel llynnoedd, coed, gwrychoedd neu waliau ac adeiladau traddodiadol.



Llun 1: Mae'r clwstwr yma o adeiladau o dan yr awyrlin ac mae'r to o wahanol siapiau. Bydd y planhigion ar y clawdd ar hyd ffrynt yr adeiladau yn tyfu ac yn eu cuddio.

- 5.3 Pan fydd modd, wrth gynllunio adeilad newydd, efallai y bydd cyfleoedd i wella'r dirwedd yn codi trwy adolygu'r defnydd a wneir o'r adeiladau presennol ar y fferm neu gael gwared ar adeiladau sy'n ddolur i'r llygad neu adeiladau mewn cyflwr arbennig o wael (ar yr amod nad oes iddyn nhw unrhyw werth hanesyddol).
- 5.4 Bydd adeilad ar yr awyrlin yn torri ar y llinell naturiol rhwng yr awyr a'r tir a bydd yn tueddu i fod yn drech na'r dirwedd ac yn rhy amlwg. Mae modd osgoi hyn yn y rhan fwyaf o achosion. Mae lleoli adeilad o dan yr awyrlin yn gwneud adeiladau fferm modern dipyn yn llai amlwg yn y dirwedd. Os nad oes modd gwneud hyn dylid rhoi sylw penodol i ddyluniad, maint, amlinell yr adeilad, adlewyrchedd defnyddiau a lliw'r adeilad a'i berthynas ag amlinell y tir. Dylai amlinell yr adeilad fod yn ddiddorol ac yn gytbwys o ran maint. Mae'r olygfa bell o adeiladau yn yr achos hwn yn neilltuo o bwysig.

Topograffi

- 5.5 Mae perthynas adeilad ag amlinell y tir yn hollbwysig i'r modd y mae'n edrych. Yn aml iawn, mae adeiladau fferm traddodiadol yn edrych fel petaen nhw'n tyfu o'r tir. Un rheswm am hynny yw eu bod wedi cael eu hadeiladu o ddeunyddiau lleol traddodiadol. Rheswm arall yw bod yr adeiladwyr wedi creu pob adeilad i ffitio'r safle. Gydag adeiladau newydd mwy o faint nid yw hyn mor hawdd. Ond drwy leoli adeilad yn ofalus, gall orffwys yn gyfforddus yn y dirwedd sy'n gefndir iddo, a gall gofleidio ehangder y tir. Ni ddylid anwybyddu safle ar lethr, er y gallai fod yn anoddach ei ddatblygu, gan fod iddo sawl mantais:
- Bydd gosod adeilad ar lethr yn lliniaru ei effaith ar y dirwedd ac yn ei helpu i ymdoddi i'r amgylchedd;
 - Gall tir sydd ar lethr roi mwy o loches a chynhesrwydd;
 - Gallai tir sydd ar lethr fod yn dir amaethyddol llai cynhyrchiol;
 - Yn aml iawn, bydd modd defnyddio'r pridd sydd wedi'i gloddio allan i wneud i'r adeilad edrych yn is drwy lunio'r tir yn sensitif a chreu cloddiau a thwmpathau.

- 5.6 Torri a llenwi yw'r dull gorau weithiau o greu tir gwastad i adeiladu arno ar lethr serth ac i osod adeilad yn daclus yn y dirwedd. Bydd adeilad yn edrych yn well os cedwir y torri a'r llenwi i'r lleiafswm. Hefyd, gall adeiladau 'grisiog' greu patrymau to diddorol. Ond gall gormod o dorri a llenwi greu darnau mawr o waliau cynnal a llethrau noeth hyll, a dylid osgoi hyn. Gall manteisio ar safle sydd ar lethr wella ffurf adeiladau.

Ffurf a dyluniad

- 5.7 Mae angen dylunio adeiladau fferm modern yn ofalus iawn. Adeiladau mawr un rhychwant sy'n achosi'r effaith weledol fwyaf.

Dylid ystyried y canlynol:

- defnyddio strwythurau o fwy nag un rhychwant, gan fod y rheini'n lleihau swmp y to ac yn golygu y gall y talcen fod mewn mwy nag un man;
- amrywio'r cynllun hirsgwar arferol;
- osgoi darnau mawr o waliau drwy ddefnyddio deunyddiau o liw ac ansawdd gwahanol (ee cerrig o dan gladin pren, drysau pren ac ati);
- defnyddio deunyddiau o wahanol liwiau ar gyfer y waliau a'r to;
- manylion da yn yr adeiladwaith;
- rhannu'r adeilad yn ddau adeilad llai, y gellir eu hymgorffori'n well mewn grŵp presennol.

- 5.8 Bydd math a lliw ac ansawdd y deunyddiau adeiladu allanol yn effeithio'n fawr ar yr effaith a gaiff yr adeilad ar y dirwedd. (Er enghraifft, gall waliau brisbloc edrych yn wael, a dydy pethau felly ddim fel rheol yn addas mewn mannau sensitif neu amlwg. Ond os oes cyfiawnhad dros ddefnyddio brisblociau, cymerir hynny i ystyriaeth).



Llun 2: Gall amrywio'r rhychwant a'r dyluniad edrych yn ddiddorol.

Math o ddeunyddiau

- 5.9 Mae cerrig lleol traddodiadol yn edrych yn dda yn yr amgylchedd gwledig. Maen nhw'n effeithiol iawn fel godre adeilad ffrâm porthol sydd wedi'i orchuddio â phren.
- 5.10 Gall blociau concriid neu flociau concriid 'in situ' neu flociau llwyd naturiol fod yn dderbyniol os ydyn nhw o safon uchel, ar yr amod nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio'n helaeth ar waliau noeth. Fel arfer mae rendro concriid neu flociau yn dderbyniol.
- 5.11 Gallai fod yn dderbyniol mewn sawl achos i ddefnyddio deunyddiau concriid ar odre adeilad, os nad yw'r godre hwnnw yn uwch nag un rhan o dair o'r adeilad, ac os oes cladin ar y lefelau uwch. Gall y cladin fod yn bren, cerrig neu'n ddeunydd rhychiog.
- 5.12 Mae estyll pren fertigol yn dal yn boblogaidd iawn fel cladin, yn enwedig ar gyfer adeiladau i ddal da byw, ac maen nhw'n gweddu'n dda fel arfer i'r adeiladau traddodiadol. Gall estyll llorweddol fod yn dderbyniol hefyd. Gellir trin pren â hylif mewn lliwiau derbyniol. Fel arfer, mae pren haenog (*plywood*), blocfwrdd, hardbord a haenau pren tebyg yn anaddas oherwydd eu golwg, ac felly'n annerbyniol.
- 5.13 Gall haenau metel â gorchudd plastig edrych yn dda os dewisir lliw priodol. Does dim gwaith cynnal a chadw, mae ganddyn nhw oes faith, maen nhw'n hawdd i'w codi a gellir ail-ddefnyddio'r haenau. Mae ar gael mewn amryw o liwiau a phroffiliau addas. Fel arfer, po fwyaf yr adeilad, y mwyaf ddylai'r proffil fod (hynny yw, y pellter rhwng y rhychiau, sy'n creu'r tonnau). Yn achos adeiladau llai, mae rhychiau crwn traddodiadol yn briodol.
- 5.14 Mae haenau ffibr sment i'w cael mewn lliwiau naturiol neu wedi'u lliwio. Er fod hwn yn ddeunydd cymharol rad ac yn hawdd i'w gynnal a'i gadw, yr anfantais yw ei fod yn frau iawn, ac yn anodd i'w aildefnyddio. Mae'n debygol o falu os caiff ei ddefnyddio ar lefel y llawr. Argymhellir ei fod yn cael ei liwio gan fod y lliw naturiol yn cymryd amser maith i ddal y tywydd a gall fod yn rhy amlwg.
- 5.15 Deunydd cladio rhychiog yw bwrdd ffibr bitumen a mwynau (*bitumen and mineral fibreboard*). Mae'n ysgafn ac mae modd ei ddefnyddio ar wynebau gwastad neu grwn a gellir ei gael wedi'i liwio'n barod. Oer fer sydd iddo, sef tua 25 mlynedd. Fel arfer dim ond ar adeiladau ag iddynt siâp afreolaidd neu adeiladau dros dro y caiff ei ddefnyddio.
- 5.16 Roedd haenau dur rhychiog yn ddewis cyffredin ar gyfer adeiladau fferm traddodiadol a bydden nhw fel arfer yn cael eu peintio i edrych yn dda. Rhai o'r opsiynau eraill yw haenau wedi'u gorchuddio â phlastig neu ffibr sment wedi'i liwio a bydd y rhain yn dderbyniol fel arfer.

Lliw'r deunyddiau

- 5.17 Mae dewis y lliw iawn yn bwysig wrth geisio gwneud i adeilad weddu i'w amgylchedd. Mae lliwiau tywyll yn llai o ddolur i'r llygad. Mae'r rhan fwyaf o ddeunyddiau i'w cael mewn amryw o liwiau ac mae rhai awgrymiadau isod:

- os defnyddiwrch orffeniad di-sglein ar doeau a waliau, fel brown, gwyrdd tywyll, du neu lwyd tywyll sy'n gweddu'n dda i'r dirwedd, bydd yr adeilad yn edrych yn llai;
- dewiswch liw tywyllach ar gyfer y to. Mae to yn adlewyrchu mwy o olau dydd na waliau a bydd felly'n edrych yn oleuach os bydd o'r un lliw â'r waliau;
- peidiwch â defnyddio haenau mawr o'r un lliw ar y waliau – byddai amrywiaeth o liwiau tebyg neu arlliwiau'n well;
- mae haenau wedi'u peintio â lliw yn well na rhai mathau o haenau sydd â lliw drwyddyn nhw, gan fod y lliw yn fwy gwastad ac yn para'n hirach.



Llun 3: Gall amrywiaeth o ddeunyddiau a lliwiau fod yn dderbyniol.

- 5.18 Bydd yr union liw a ddewisir yn dibynnu ar yr amgylchedd lleol, gan gynnwys lliw unrhyw adeiladau cyfagos. Os oes adeiladau gerllaw ag arnynt liwiau amhriodol, ni fydd hynny'n gyfiawnhad dros ddewis lliw neu ddeunydd anaddas.



Llun 4: Gall dewis lliwiau addas a graddfa briodol helpu adeiladau weddu i'r nodweddion traddodiadol.

Manylion yr adeiladwaith

- 5.19 Gan fod adeiladau fferm yn aml yn cynnwys darnau helaeth gwastad, gall ychwanegu manylion da atyn nhw eu gwneud i edrych lawer yn well. Byddai'n werth ystyried y bondo, ffenestri to, cafnau, peipiau dŵr glaw, drysau, ffenestri ac unedau awyru. Mae'n debygol y bydd angen rhoi tipyn o sylw i'r manylion os yw'r adeilad mewn man amlwg neu sensitif.

Mewn mannau sensitif gall yr awgrymiadau canlynol wneud i'r adeilad edrych yn well:

- bydd graddfa'r adeilad yn edrych yn llai os yw'r to yn hongian dros y waliau, gan fod cysgod yn cael ei greu ar hyd y waliau (bydd gwell awyru naturiol hefyd);
- gall cafnau a pheipiau dŵr glaw fod yn bwysig iawn wrth ddylunio a dylid gofalu nad oes modd i dda byw a pheiriannau fferm achosi difrod iddyn nhw;
- dylai drysau, ffenestri ac unedau awyru fod yn gymesur â'r adeilad cyfan.

- 5.20 Mae drysau mawr yn aml iawn yn achosi problemau, yn enwedig ar dalcen adeilad. Dylid cadw corneli uchaf y man lle mae'r drysau'n agor a'r 'rhedwyr' yn ddigon pell o'r to er mwyn iddyn nhw edrych yn well. Dylid osgoi gwneud i'r drysau edrych yn ddiwydiannol.

6 Tirweddu

- 6.1 Yn aml iawn, bydd angen plannu coed a chreu ffiniau naturiol er mwyn helpu'r adeiladau fferm newydd i ymdoddi i'r dirwedd. Byddan nhw hefyd yn rhoi diogelwch rhag gwyntoedd cryfion ac yn creu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwylt. Bydd yr angen am goed yn dibynnu ar faint yr adeilad a pha mor amlwg ydyw, a hefyd pa mor dda y mae'r coed neu'r planhigion presennol yn cuddio'r adeilad o'r prif fannau gwyllo. Os

Canllawiau Cynllunio Atodol

Lleoli a Dylunio Adeiladau Fferm Newydd ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro Mehefin 2012

caiff yr adeilad ei leoli'n ofalus ac os bydd y dewis o ddeunyddiau'n addas efallai na fydda angen plannu coed. Mewn achosion o rag-hysbysiad, os yw'r adeilad yn debygol o gael effaith sylweddol ar ei amgylchedd, efallai y bydd angen tirweddu os na ellir canfod ffyrdd eraill o leihau'r effaith. Bydd tirweddu bob amser yn fater a gaiff ei drafod yn fanwl os oes angen caniatâd cynllunio. Gall byndiau artiffisial, hyd yn oed rhai a blannwyd, edrych yn chwithig a dylid eu hosgoi.

6.2 Wrth gyflwyno cynlluniau plannu, dylid ystyried y canlynol:

- plannu mewn grwpiau, ac nid mewn rhesi taclus, oni bai fod hynny mewn lleiniau cysgodi;
- dewis rhywogaeth sy'n gwneud yn dda yn yr ardal leol ac sy'n rhywogaeth frodorol;
- plannu'n ddigon pell i ffwrdd i ddiogelu mannau gwyllo sensitif;
- y perygl y gallai canghennau sy'n syrthio achosi difrod i adeiladau neu y gallai dail lenwi'r cafnau neu wreiddiau achosi difrod i sylfeini.

6.3 Fel arfer, bydd y gofynion plannu yn rhan o'r amodau a osodir ar ganiatâd cynllunio neu ar y manylion fydd yn cael eu cyflwyno o dan y drefn rhaghysbysu. Bydd y rheini fel arfer yn ymwneud â'r diogelu'r nodweddion presennol yn y dirwedd, plannu o fewn amserlen benodol a'r cyfrifoldebau am gynnal a chadw'r planhigion yn y dyfodol. Dylid codi ffensys addas i ddiogelu coed newydd rhag cwningod a da byw. Bydd yr amodau cynnal a chadw yn nodi y bydd angen ailblannu unrhyw goed sydd heb fyw am bum mlynedd.

6.4 Mae'r Awdurdod wedi creu rhestr o goed a llwyni brodorol sy'n tyfu'n naturiol yn y Parc Cenedlaethol, a gellir gweld y rhestr honno ar wefan yr Awdurdod¹². Mae cyngor hefyd ar gael gan Swyddog Coed a Thirweddau'r Awdurdod.

7.0 Ymestyn adeiladau presennol

7.1 Bydd estyniadau yn wynebu ystyriaethau digon tebyg i adeiladau newydd. Dylid hefyd ystyried manteision gweledol estyniad ar raddfa lai na'r adeilad gwreiddiol, ond sy'n cyfateb i'w gynllun a'i ddefnyddiau. Fodd bynnag, efallai y byddai'n well dewis datrysiad arall, yn enwedig ble mae'r adeilad presennol yn edrych yn wael a ble byddai'r estyniad a gynigir yn amlwg iawn. Rhai dewisiadau fyddai creu adeilad ar wahân neu wneud gwaith ffisegol neu dirweddu i wella golwg yr adeilad presennol.

8.0 Ffyrdd mynediad

8.1 Os oes ffyrdd mynediad eisoes ar gael, dylid defnyddio'r rheini lle bynnag y bo modd. Gall ymestyn ffyrdd mynediad neu greu ffyrdd mynediad newydd i adeiladau fferm gael effaith fawr ar gefn gwlad, yn enwedig lle mae pantiau a brynau yn y tir neu lle caiff nodweddion o bwys eu tynnu ymaith.¹³ Os bydd cyffordd yn cael ei chreu rhwng ffordd fynediad newydd a ffordd gyhoeddus rhaid i'r gyffordd fodloni gofynion yr Awdurdod

¹² <http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/files/files/dev%20plans/AdoptedSPG/NativeTreesShrubs2011.pdf>

¹³ Mae'n bosibl y bydd angen caniatâd cynllunio i wneud ffordd fynediad neu i addasu ffordd fynediad.

Priffyrdd. Mae'n bosibl y gall yr Awdurdod ofyn am roi'r gyffordd mewn man arall neu ei haddasu mewn rhyw fodd am resymau diogelwch ffyrdd neu gynnal a chadw.

8.2 Wrth greu ffyrdd mynediad newydd neu ymestyn ffyrdd dylid ystyried y canlynol:

- Osgoi achosi difrod i nodweddion o ddiddordeb, fel coed a choetiroedd, llynnoedd, lleoliad adeiladau rhestredig neu henebion ac ati;
- Dilyn terfynau presennol y caeau neu eu hamlinell;
- Yr effaith ar unrhyw anheddau cyfagos nad ydyn nhw'n gysylltiedig â'r fferm;
- Unrhyw hawliau tramwy cyhoeddus (fel llwybrau cerdded, llwybrau ceffylau, cilffyrdd cyfyngedig a chilffyrdd) a'r bobl sy'n eu defnyddio. Dylid gofyn cyngor yr adran hawliau tramwy cyhoeddus cyn addasu wyneb unrhyw hawl dramwy gyhoeddus;
- Gallai wyneb tywyll fel tarmac neu agregau wedi'u malu fod yn llai amlwg yn y dirwedd. Os bwriedir rhoi wyneb caled ar ffordd lle mae llwybr ceffylau yn ei chroesi rhaid ymgynghori ymlaen llaw â'r tîm hawliau tramwy cyhoeddus, a chael eu caniatâd;
- A yw'n briodol plannu coed neu greu cloddiau newydd.

9.0 Ystyriaethau eraill¹⁴

Mae amrywiaeth eang o bethau y mae'n rhaid eu hystyried ar gyfer unrhyw ddatblygiad, ac fe all y rheini fod yn berthnasol i adeiladau fferm hefyd. Efallai y bydd pethau gwahanol i'w hystyried ar gyfer pob cynnig ac fe allwn roi cyngor i chi cyn i chi wneud cais.

- **Bioamrywiaeth (Cynefinoedd a Rhywogaethau)** – rhaid ystyried a oes rhywogaethau a ddiogelir ar y safle, ac a fydd y datblygiad yn achosi difrod i gynefinoedd neu hyd yn oed yn eu dileu. Rhaid ystyried effaith dŵr ffo a llygredd ar fioamrywiaeth, gan gynnwys llygredd aer, dŵr a phridd. Mae modd gwella bioamrywiaeth drwy addasu'r cais cynllunio, ee creu blychau ystlumod neu flychau tylluanod gwyn.

Drwy leoli a dylunio adeiladau'n ofalus mae modd osgoi, lliniaru neu leddfu'r effaith ar fioamrywiaeth. Gallai fod yn help i reoli stociau bwyd fel silwair, a'r gwastraff o'r da byw sy'n cael eu cadw yn yr adeiladau. Dylid gofyn i Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru am gyngor technegol ynghylch llygredd¹⁵.

- **Yr effaith ar y dirwedd neu ar adeiladau hanesyddol** - dylid bod yn ofalus iawn pan fydd y datblygiad mewn tirwedd hanesyddol neu os bydd yn debygol o effeithio ar barc neu ardal hanesyddol. Dylid cymryd i ystyriaeth yr effaith bosibl ar adeiladau rhestredig a'u lleoliad, adeiladau o bwysigrwydd lleol a datblygiadau mewn Ardaloedd Cadwraeth ynghyd â'r potensial ar gyfer archaeoleg a henebion a safleoedd a ddiogelir. Dylid ystyried yr angen am Ganiatâd Adeilad Rhestredig ble mae yna newidiadau i adeiladau rhestredig.

¹⁴ Gweler polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol, rhif 10 ac 11, am wybodaeth bellach:

<http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?PID=178>

¹⁵ <http://www.environment-agency.gov.uk>

Canllawiau Cynllunio Atodol

Lleoli a Dylunio Adeiladau Fferm Newydd ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro Mehefin 2012

Dylid gwneud pob ymdrech i gadw adeiladau sydd o ddiddordeb hanesyddol, gan geisio'u trwsio a'u haddasu yn hytrach na chwael eu gwared.

- **Hawliau tramwy cyhoeddus** - mae'r rhain yn briffyrdd ac maen nhw felly'n cael eu diogelu gan y gyfraith yn yr un modd yn union â Stryd Fawr neu ffordd ddeuol. Os bydd adeilad newydd neu waith cysylltiedig yn debygol o effeithio ar hawl tramwy cyhoeddus, naill ai'r croesi hawl tramwy cyhoeddus, yn ymyl un neu fod yr hawl tramwy yn cael ei ddefnyddio fel mynediad, caiff hynny ei ystyried fel rhan o'r broses gynllunio. Ni roddir caniatâd i unrhyw ddatblygiad a fyddai'n effeithio ar hawl y cyhoedd i gael mynediad i'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus oni bai fod trefniadau penodol yn cael eu gwneud i ddarparu llwybrau addas eraill sy'n bodloni'r profion cyfreithiol. Dylid gofyn am fwy o gyngor gan y tîm hawliau tramwy cyhoeddus.
- **Diogelu dŵr a rheoli llygredd** – rhaid bodloni'r safonau hyn. Gallwch gael rhagor o gyngor gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

10.0 Rhagor o gyngor

Gallwch gael rhagor o gyngor gan yr Adran Gynllunio drwy'r weithdrefn ymholiadau cyn cynllunio. Mae cyngor ar gael ar faterion mynediad, coed, gwarchod adeiladau a bioamrywiaeth hefyd.

Os oes gennych ymholiadau cynllunio cysylltwch â:

Rheoli Datblygu
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Parc Llanion
Doc Penfro
Sir Benfro
SA72 6DY

Ffôn: 0845 3457275 Ffacs: 01646 689076 E-bost: devman@pembrokeshirecoast.org.uk

11.0 Cysylltiadau defnyddiol

Asiantaeth yr Amgylchedd

Ymholiadau Cyffredinol
Llinell Ddigiwyddiadau
(i hysbysu am ddigiwyddiad gan gynnwys llygredd)
Cofrestru Gwastraff Amaethyddol

www.environment-agency.gov.uk

03708 506 506

0800 807060

0845 603 3113

Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Ymholiadau Cyffredinol 01646 624000

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed

Rhif ffôn

www.cambria.org.uk

01555 823121

Cymorth Cynllunio Cymru

www.cymorthcynllunio.cymru.org.uk

Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn elusen gofrestredig annibynnol sy'n darparu cefnogaeth a chynghor diduedd, proffesiynol am ddim ar bob agwedd o gynllunio defnydd tir yng Nghymru. Mae gan Cymorth Cynllunio Cymru wasanaeth llinell gymorth ar gyfer aelodau o'r cyhoedd.
Ffôn: 02920 625000

ATODIAD 1 : Oes rhaid i mi gael caniatâd cynllunio neu rag-hysbysiad?

Bydd hyn yn dibynnu ar faint y daliad, a oes parcel ar wahân o dir yn cael ei ddefnyddio, a'r datblygiad a gynigir.

A yw'r daliad dan 5 hectar?

Ar ddaliadau o dan 5 hectar (neu barsel ar wahân o dir o dan un hectar) mae angen caniatâd cynllunio swyddogol i godi unrhyw adeilad amaethyddol newydd.

A yw'r daliad yn 5 hectar neu fwy?

Ar ddaliadau dros 5 hectar gallai rhai adeiladau amaethyddol a gwaith arall fod yn ddatblygiad a ganiateir (*permitted development*). Os yw'r daliad dros 5 hectar ac os ydych wedi ateb **YDY** i **unrhyw rai** o'r cwestiynau canlynol, yna mae angen caniatâd cynllunio llawn. Os mai **NAC YDY** yw'r ateb i **bob** cwestiwn, yna bydd angen i chi roi rhag-hysbysiad.

Cwestiynau:

- | | |
|--|--|
| • A yw'r daliad yn llai na 5 hectar mewn arwynebedd neu a yw'r datblygiad i'w wneud ar barsel ar wahân o dir sy'n llai nag un hectar? | YDY/NAC YDY |
| • A yw'r datblygiad yn golygu darparu adeilad, strwythur neu waith nad ydyn nhw at ddiibenion amaethyddol? | YDY/NAC YDY |
| • A yw arwynebedd y datblygiad dros 465 metr sgwâr? | YDY/NAC YDY |
| • Os yw'r adeilad, strwythur neu waith o fewn 3 km i gyrion maes awyr a yw uchder unrhyw ran ohono dros 3 metr? | YDY/NAC YDY |
| • A yw unrhyw ran o'r adeilad o fewn 25 metr i'r rhan fetel o gefnffordd neu ffordd ddosbarthiadol? | YDY/NAC YDY |
| • A yw'r datblygiad i gael ei ddefnyddio i gadw da byw neu i storio slyri neu slwtsh carthion?
Os ydy, a yw o fewn 400 metr i gwrtil adeilad a ddiogelir? | YDY/NAC YDY
YDY/NAC YDY |
| • A yw'r datblygiad yn cynnwys gwaith cloddio neu beirianeg sy'n gysylltiedig â ffermio pysgod? | YDY/NAC YDY |

Mae dau gam i'r drefn o roi rhag-hysbysiad:

- Rhaid i'r ffermwr neu'r datblygwr roi manylion y cynnig i Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Dylid gwneud hyn drwy lenwi'r ffurflen "rhag-hysbysiad" a'i hanfon at yr Awdurdod ynghyd â'r ffi briodol¹⁶ ac unrhyw wybodaeth ychwanegol. Mae'r Awdurdod yn cael 28 diwrnod i benderfynu a oes angen iddo roi caniatâd; os bydd yr Awdurdod yn penderfynu nad oes angen caniatâd (neu os bydd yn methu â gwneud penderfyniad o fewn 28 diwrnod), gall y gwaith fynd yn ei flaen.
- Mae'r ail gam yn dibynnu a yw'r Awdurdod yn tybio bod angen caniatâd ai peidio. Os bydd angen caniatâd, rhaid i'r ffermwr neu'r datblygwr roi manylion llawn y cynnig, ynghyd â'i leoliad, y deunyddiau, a'i olwg allanol i'r Awdurdod. Bydd yr Awdurdod yn ystyried y rhain yn ofalus, a bydd yn anelu at wneud penderfyniad cyn pen 8 wythnos ar ôl cael y manylion llawn. Yn y cyfnod hwn gallai'r Awdurdod awgrymu newidiadau i wneud y cynnig yn fwy derbyniol.

Wrth benderfynu a oes angen symud ymlaen i'r ail gam (ii), hynny, yw cymeradwyo'r manylion, bydd y swyddogion yn asesu a yw'r datblygiad arfaethedig yn debygol o gael effaith sylweddol ar ei amgylchedd. Wrth asesu hyn bydd y swyddogion yn ystyried:

¹⁶ Cewch restr o'r ffioedd ar ein gwefan yn <http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?pid=132&LangID=2>

- effaith weledol y cynnig ar y dirwedd neu unrhyw effeithiau niweidiol y gallai, o bosibl, eu cael ar fuddiannau cadwraeth, fel safleoedd sy'n werthfawr i gadwraeth natur, adeiladau rhestredig neu henebion a'u lleoliad, safleoedd archaeolegol, ardaloedd cadwraeth neu ardaloedd sy'n destun polisiau sy'n ymwneud â'r dirwedd;
- unrhyw bolisiau perthnasol yn y Cynllun Datblygu Lleol;
- y canllawiau dylunio y cyfeirir atyn nhw yn y ddogfen hon;
- y Polisi Cynllunio Cenedlaethol ac ymgynghori ag asiantaethau perthnasol.

Anogir ffermwyr i roi cymaint o wybodaeth â phosibl yn y cam cyntaf, ac i ddilyn y canllawiau dylunio yn y ddogfen hon. Gallai brasluniau o'r adeilad neu bamffledi gan fasnachwyr am y deunyddiau y bwriedir eu defnyddio fod yn help i gyfleu'r wybodaeth.

Dan Reoliad 73 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010, ble mae datblygiad yn debygol o gael effaith sylweddol ar Ardal Cadwraeth Arbennig neu Ardal Gwarchodaeth Arbennig, fel amod o unrhyw ganiatâd cynllunio a roddir dan y trefniadau hyn, rhaid rhoi rhybudd ymlaen llaw i Awdurdod y Parc Cenedlaethol cyn dechrau ar unrhyw waith.